



Trosolwg o Gymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru

Cynnwys

Cyflwyniad i adeiladu'r dyfodol	3	Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)	9
Cyflwyniad i'r cymwysterau	4	Adeiladu Lefel 3 (Cymerwyd fel rhan o brentisiaeth)	10
Y cymwysterau – yn gryno	5	Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 (Cymerwyd fel rhan o brentisiaeth)	11
Y cymwysterau – dilyniant	6	Y cymwysterau – a'r cardiau safle cysylltiedig	12
Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)	7		
Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)	8		





Cyflwyniad i adeiladu'r dyfodol

Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yw un o'r sectorau cyflogaeth pwysicaf yng Nghymru.

Amcangyfrifir bod 13,000 o gwmnïau'n gweithio yn y sector, gan gyflogi dros 130,000 o bobl a chyfrannu 6.5% o Werth Ychwanegol Gros y wlad.

Dyna pam mae Cymwysterau Cymru wedi'i ddewis ar gyfer adolygiad sylweddol o'r cymwysterau sydd ar gael yn y diwydiant.

Mae cymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y rhai ar gyfer adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, yn cyfrif am 90% o'r cymwysterau rheoledig sydd ar gael yng Nghymru. Felly, mae angen iddynt adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr.

Nod yr adolygiad oedd asesu'r cymwysterau sydd ar gael yn y sector a phenderfynu a oedd angen eu newid mewn unrhyw ffordd. Roedd rhan fawr o'r gwaith hwn yn cynnwys cwrdd a siarad â chyflogwyr mawr a bach ledled Cymru, yn ogystal â'r rhai sy'n dysgu'r cymwysterau mewn ysgolion a cholegau, i ddod i wybod beth sydd ei angen arnynt.

Hoffem diolch i'n holl randdeiliaid yn y sector am y cymorth maen nhw wedi'i ddarparu drwy gydol yr adolygiad o'r sector a'r rhan maen nhw'n ei chwarae i helpu i arwain ar y cymwysterau hyn i ddiwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a chanolfannau darparu ledled Cymru.

Diolch yn arbennig i Gymdeithas Penaethiaid Adeiladu Prydain a'r Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid am eu harweiniad doeth a'u llywio gofalus. Rydym yn ddiolchgar iawn am hynny.





Cyflwyniad i'r cymwysterau

Mae Cymwysterau Cymru wedi gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol y diwydiant drwy benodi City & Guilds ac EAL i gydweithio ar ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu, y gellir eu hariannu, yng Nghymru. Rydym yn cynnig amrywiaeth o grefftâu, pob un ohonynt yn rhoi cyfle i gamu ymlaen yn y sector Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu.

Mae'r cymwysterau hyn yn ceisio bod yn addas ar gyfer y dyfodol gan eu bod yn ymgorffori sgiliau sydd eu hangen ar y sector yn awr ac yn y dyfodol. Bydd y cymwysterau newydd yn dechrau helpu i symleiddio'r ddarpariaeth gymhleth o fwy na 400 o gymwysterau sydd ar gael yn y sector.

Dewisiadau gyrfa

Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn yn cael eu cyflwyno i alwedigaethau fel plastrwr, trydanwr, gosodwr brics, plymwr, teilsiw'r, saer pensaernïol a saer safle. Byddant yn cael y cyfle i ennill gwybodaeth am dueddiadau technolegau cartrefi clyfar yn y dyfodol ac adeiladu cynaliadwy, fel paneli solar ac adeiladau di-garbon. Mae sgiliau a thechnegau traddodiadol sy'n cael eu defnyddio ar adeiladau treftadaeth wedi cael eu cynnwys yn y cymwysterau hyn i lenwi'r bylchau lle mae mawr angen sgiliau ac i gynnig mwy o opsiynau i'r rhai sy'n dechrau ar eich gyrfa yn y diwydiant amrywiol a chyffrous hwn.

Ar gyfer pwy mae'r cymwysterau?

Maent yn addas ar gyfer:

- unrhyw un dros 16 oed sy'n gweithio eisoes neu sy'n bwriadu gweithio yn y sector adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu

Gofynion mynediad

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol o ran Saesneg a mathemateg ar gyfer y cymwysterau hyn, ond disgwylir y bydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol dda o Saesneg a mathemateg. Rydym yn argymhell bod dysgwyr yn datblygu rhagor o sgiliau Saesneg a mathemateg ffurfiol, fel Sgiliau Hanfodol neu TGAU i gefnogi dilyniant llwyddiannus yn y rhaglen.



Y cymwysterau – yn gryno

Addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2021 ymlaen

➔ Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- Gweithio gyda brics, blociau a cherrig
- Galwedigaethau gwaith coed
- Gorffeniadau addurniadol a phaentio diwydiannol
- Plastro a systemau mewnol
- Plymio, gwresogi ac awyru
- Galwedigaethau gwaith toi
- Teilsio waliau a lloriau
- Systemau ac offer electrodechnegol
- Galwedigaethau adeiladu a pheirianeg sifil
- Gwaith peiriannau

➔ Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)

- Gosod brics
- Gwaith Coed Pensaernïol
- Gwaith Coed ar y Safle
- Codi fframiau pren
- Paentio ac addurno
- Plastro Soled
- Gwaith Toi – Llechi a Theils
- Leinio Sych – Gosod
- Gweithrediadau Adeiladu – Gwaith Tir

➔ Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

- Systemau a Chyfarpar Electrodechnegol: Gosod
- Plymio a Gwresogi

Addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2022 ymlaen

➔ Adeiladu Lefel 3 (Cymerwyd fel rhan o brentisiaeth)

- Gosod brics
- Gwaith coed pensaernïol
- Gwaith coed ar y safle
- Codi fframiau pren
- Paentio ac addurno
- Teilsio waliau a lloriau
- Plastro
- Gwaith toi – llechi a theils
- Gwaith peiriannau
- Leinio sych
- Gweithrediadau sifil – gwaith tir

➔ Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Plymio a Gwresogi

- Gosod Gwresogi ac Awyru
- Crefftwr Gwresogi ac Awyru
- Plymio a Gwresogi
- Gosod Electrodechnegol

Manteision i ddarparwyr a dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn:

- bydd y cymwysterau'n rhoi'r sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt i'ch gwneud yn fwy cyflogadwy
- bydd gennych adnoddau i'ch cefnogi drwy eich cwrs i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y cymwysterau
- wrth i chi symud drwy'r fframwaith cymwysterau, maent yn mabwysiadu dull symlach o asesu fel bod llai o ddyblygu asesiadau
- mae yna lwybrau cynnydd clir er mwyn i chi allu gweld eich llwybr ymlaen at astudio pellach neu i mewn i waith
- bydd gennych ddewis o adnoddau dysgu ac asesiadau dwyieithog (Cymraeg a Saesneg)



Y cymwysterau – dilyniant

Mae'r opsiynau galwedigaethol yn dechrau gyda chymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2). Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys dau faes crefft a sgiliau cyflogadwyedd.

Ar ôl cyflawni hyn, gall dysgwyr symud i faes crefft arbenigol ar Lefel 3 gyda'u cyflogwr fel rhan o brentisiaeth neu ddilyn y Cymhwyster Dilyniant i gryfhau'r grefft o'u dewis.

	2021	2022	2023	2024
Dewis A Cwblhau blwyddyn mewn amser llawn dysgu cyn sicrhau prentisiaeth	Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu	Adeiladu Lefel 3 yn y grefft o'ch dewis (Cymhwyster a gymerwyd fel rhan o brentisiaeth)		
		Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 yn y grefft o'ch dewis (Cymhwyster a gymerwyd fel rhan o brentisiaeth)		
Dewis B Cwblhau dwy flynedd mewn amser llawn dysgu cyn sicrhau prentisiaeth	Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu	Cymhwyster dilyniant	Lefel 3 Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth)	
	Lefel 1 eang	Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu	Lefel 3 Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu yn eich dewis crefft i arbenigo ynddi (Cymhwyster prentisiaeth)	
Dewis C Mynediad uniongyrchol i brentisiaeth o fis Medi 2022 ymlaen	Cymhwyster craidd ac Adeiladu Lefel 3 neu Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 yn y grefft o'ch dewis (Cymhwyster a gymerwyd fel rhan o brentisiaeth)			

Hyd y brentisiaeth

Gall hyd rhaglen brentisiaeth amrywio yn dibynnu ar y grefft o'ch dewis.



Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu yn darparu cyflwyniad eang i'r maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector. Mae wedi'i anelu at unrhyw un dros 16 oed ac wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion mewn addysg bellach amser llawn.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, ond mae disgwyl i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol dda o Saesneg a mathemateg.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Bydd dysgwyr yn dewis maes crefft o blith yr unedau sydd ar gael ym maes adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu, ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.



Unedau

Bydd dysgwyr yn dewis dwy uned grefft er mwyn treulio amser ychwanegol yn dysgu, a fydd yn cynnwys cynllunio, perfformio a gwerthuso tasgau cyffredin:

- Gweithio gyda brics, blociau a cherrig
- Galwedigaethau gwaith coed
- Gorffeniadau addurniadol a phaentio diwydiannol
- Plastro a systemau mewnlol
- Plymio, gwresogi ac awyru
- Galwedigaethau gwaith toi
- Teilsio waliau a lloriau
- Systemau electrodechnegol
- Galwedigaethau adeiladu a pheirianeg sifil
- Gwaith peiriannau



Unedau

Bydd dysgwyr yn cwblhau chwe uned 'graidd', sy'n cwmpasu:

- Cyflwyniad i'r amgylchedd adeiledig
- Cyflogaeth a sgiliau cyflogadwyedd
- Lechyd a diogelwch

Mae'r cymhwyster hwn yn cyflenwi dysgwyr â gwybodaeth ragarweiniol a dealltwriaeth o'r canlynol:

- Cylch bywyd yr amgylchedd adeiledig, y swyddi yn y sector, a'r gyd-ddibyniaeth rhwng pobl sy'n cyflawni'r swyddi hynny
- Sut mae hybu a chynnal iechyd a diogelwch eich hun a phobl eraill
- Sgiliau cyflogadwyedd sy'n berthnasol i waith yn y dyfodol

Mae'r cymhwyster yn darparu digon o wybodaeth i symud ymlaen i brentisiaeth yn sector y grefft a ddewisir.

Er mwyn cael gwaith fel crefftwr cymwysedig, byddai angen i ddysgwyr ennill cymhwyster Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth yn y grefft o'u dewis.



Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)

Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sector adeiladu. Mae wedi'i anelu at unrhyw un sydd wedi cyflawni Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu ond sydd heb brentisiaeth eto.

Gofynion mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, ond mae disgwyl i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol dda o Saesneg a mathemateg.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Bydd dysgwyr yn dewis maes crefft o blith yr unedau sydd ar gael ym maes adeiladu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.



Unedau

Bydd dysgwyr yn canolbwyntio eu hamser ar un grefft, gan ddewis o blith y canlynol:

- Gosod brics
- Gwaith Coed Pensaernïol
- Gwaith Coed ar y Safle
- Codi fframiau pren
- Paentio ac addurno
- Plastro Soled
- Gwaith Toi – Llechi a Theils
- Leinio Sych – Gosod
- Gweithrediadau Adeiladu – Gwaith Tir



Unedau

Bydd dysgwyr hefyd yn cwblhau tair uned 'graidd' sy'n cwmpasu:

- Cyflogaeth
- Sgiliau cyflogadwyedd
- Arferion adeiladu cyffredinol

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at wella sgiliau cyn dechrau prentisiaeth.

Er mwyn bod yn grefftwr cymwysedig, byddai angen i ddysgwyr ennill cymhwyster Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth yn y grefft o'u dewis.



Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r Cymhwyster Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) wedi'i ddatblygu ar gyfer unigolion sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio, yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu. Mae wedi'i anelu at unrhyw un sydd wedi cyflawni ei gymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) ond sydd heb gyflogwr eto i barhau â phrentisiaeth.

Gofynion mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, ond mae disgwyl i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol dda o Saesneg a mathemateg.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Bydd dysgwyr yn dewis maes crefft o blith yr unedau sydd ar gael ym maes peirianeg gwasanaethau adeiladu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.



Unedau

Bydd dysgwyr yn canolbwyntio eu hamser ar un grefft o'u dewis, gan ddewis o blith y canlynol:

- Systemau a Chyfarpar Electrodechnegol: Gosod
- Plymio a Gwresogi



Unedau

Bydd dysgwyr hefyd yn cwblhau tair uned 'graidd' sy'n cwmpasu:

- Cyflogaeth
- Sgiliau cyflogadwyedd
- Arferion adeiladu cyffredinol

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at wella sgiliau cyn dechrau prentisiaeth.

Er mwyn cael gwaith fel crefftwr cymwysedig, byddai angen i ddysgwyr ennill cymhwyster Lefel 3 fel rhan o brentisiaeth yn y grefft o'u dewis.



Adeiladu Lefel 3 (Cymerwyd fel rhan o brentisiaeth)

Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r cymwysterau Adeiladu Lefel 3 yn cael eu cymryd fel rhan o brentisiaeth. Maen nhw'n caniatáu i ddysgwyr ddangos ystod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth alwedigaethol mewn crefft adeiladu o'u dewis.

Gofynion mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, ond mae disgwyl i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol dda o Saesneg a mathemateg.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Byd dysgwyr yn dewis un arbenigedd ym maes adeiladu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.



Cymwysterau

Mae'r ystod o gymwysterau i ddewis o'u plith yn cynnwys:

- Gosod brics
- Gwaith coed pensaernïol
- Gwaith coed ar y safle
- Codi fframiau pren
- Paentio ac addurno
- Teilsio walïau a llorïau
- Plastro
- Gwaith toi – llechi a theils
- Gwaith peiriannau
- Leinio sych



Unedau

Bydd dysgwyr hefyd yn cwblhau dwy uned 'graidd' sy'n cwmpasu'r sector adeiladu ac arferion o fewn y sector yng Nghymru.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn cyflenwi dysgwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i allu gweithio yn y grefft o'u dewis ledled y DU.



Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 (Cymerwyd fel rhan o brentisiaeth)

Trosolwg o'r cymhwyster

Mae'r cymwysterau Adeiladu Lefel 3 yn cael eu cymryd fel rhan o brentisiaeth. Maen nhw'n caniatáu i ddysgwyr ddangos ystod eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth alwedigaethol mewn crefft adeiladu o'u dewis.

Gofynion mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, ond mae disgwyl i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol dda o Saesneg a mathemateg.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Byd dysgwyr yn dewis un arbenigedd ym maes adeiladu ac yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth ar gyfer y grefft honno.



Cymwysterau

Mae'r ystod o gymwysterau i ddewis o'u plith yn cynnwys:

- Gosodwr Gwresogi ac Awyru
- Crefftwr Gwresogi ac Awyru
- Plymio a Gwresogi
- Gosodiadau Electrodechnegol



Unedau

Bydd dysgwyr hefyd yn cwblhau dwy uned 'graidd' sy'n cwmpasu'r sector peirianeg gwasanaethau adeiladu ac arferion o fewn y sector yng Nghymru.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi i chi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i allu gweithio o fewn y grefft o'ch dewis ledled y DU.



Y cymwysterau – a'r cardiau safle cysylltiedig

Cymhwyster	Cerdyn/cardiau perthnasol
<p>Cymhwyster Craidd City & Guilds mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) gydag un o'r profiadau crefft canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda brics, blociau a cherrig • Galwedigaethau gwaith coed • Plastro a systemau mewnol • Galwedigaethau gorffeniadau addurnol a phaentio diwydiannol • Galwedigaethau gwaith toi • Gweithrediadau adeiladu a pheirianeg sifil • Teilsio waliau a lloriau. 	<p>Bydd dysgwyr sy'n ymgymryd ag un o'r profiadau crefft hyn ar ôl cofrestru ar y cymhwyster hwn fel rhan o fframwaith prentisiaeth yn gallu ennill cerdyn Prentis CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p>
<p>City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)</p>	<p>Ar ôl cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn gallu cael Cerdyn Lleoliad ar gyfer y Diwydiant CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Coed Pensaernïol</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>



<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Coed ar y Safle</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Codi Fframiau Pren</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gosod Brics</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>



<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Paentio ac Addurno</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Plastro Soled</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Plastro Soled</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>



<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Teilsio Waliau a Lloriau</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Crefft Uwch CSCS.</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Leinio Sych</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Gweithiwr Medrus CSCS.</p>
<p>City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gweithrediadau Sifil: Gwaith Tir</p>	<p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf lechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).</p> <p>Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Gweithiwr Medrus CSCS.</p>



City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi – Llechi a Theils

Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn pan fyddant hefyd wedi cofrestru ar brentisiaeth yn gallu cael cerdyn Prentis CSCS.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster hwn heb gofrestru ar brentisiaeth yn gallu gwneud cais am gerdyn Hyfforddai CSCS (yn amodol ar gwblhau prawf Iechyd a Diogelwch a'r Amgylchedd CITB neu gymhwyster cyfatebol cymeradwy yn llwyddiannus).

Ar ôl cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus, bydd dysgwyr yn gallu cael cerdyn Gweithiwr Medrus CSCS.

Cysylltwch

I gael rhagor o wybodaeth sy'n cynnwys trosolwg, addasrwydd, strwythur, cynnydd a manylion asesu pob cymhwyster Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu sydd ar gael, ewch i

skillsforwales.wales/cy/cymwysterau

